OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1790 (Cy.186)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'i wneud	- -	*4 Gorffennaf 2006*
Yn dod i rym	- -	*6 Gorffennaf 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 16BA, is-adrannau (1), (2) a (3) ac adran 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**), a pharagraff 1 o Atodlen 5B i'r Ddeddf honno, sy'n arferadwy ganddo o ran Cymru, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn—

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) (Diwygio) 2006 a daw i rym ar 6 Gorffennaf 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y prif Orchymyn" ("*the principal Order*") yw Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003(**2**).

Diwygio'r Atodlen i'r prif Orchymyn

3.—(1) Diwygir yr Atodlen i'r prif Orchymyn (Enwau Byrddau Iechyd Lleol a phrif ardaloedd llywodraeth leol y maent yn cael eu sefydlu ar eu cyfer) fel a ganlyn:

(2) Yn y golofn sy'n dwyn y pennawd "Enwau Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan erthygl 3"—

(a) yn lle "Bwrdd Iechyd Lleol Powys" ("*Powys Local Health Board*") rhodder "Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys" ("*Powys Teaching Local Health Board*");

(b) yn lle "Bwrdd Iechyd Lleol Caerffili" ("*Caerphilly Local Health Board*") rhodder "Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Caerffili" ("*Caerphilly Teaching Local Health Board*"); ac

(**1**) 1977 p.49.
(**2**) 2003/148 (Cy.18).